Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

Caru·Love Ceredigion

| Eitem / Item | Dyddiad / Date |
|---|---|
| | 09-02-2026 |

| Teitl / Title | Er / For |
|---|---|
| Diweddariad ar y cynlluniau ar gyfer uno Byrddau Gwasanaethau Ceredigion a Sir Gaerfyrddin | *Trafodaeth a Chytundeb* |

**Crynodeb o'r Materion / Summary of Issues**

**Diben**

Diben y papur hwn yw:

• Amlinellu'r ffrydiau gwaith a nodwyd ar gyfer bwrw ymlaen â'r uno
• Cadarnhau pa Grwpiau Gorchwyl a Gorffen sydd angen eu sefydlu i symud y gwaith ymlaen
• Amlinellu cynlluniau ar gyfer cyflawni rhwymedigaethau statudol yn ystod yr uno ac ar gyfer y Bwrdd newydd (gan gynnwys yr Asesiad o Lesiant Lleol a'r Cynllun Llesiant Lleol)

**Cynllun Uno**

Mae'r cynllun uno wedi'i rannu'n dair ffrwd waith sydd wedi'u diffinio isod, ag sydd hefyd yn ystyried y gofyniad i baratoi'r Asesiad o Lesiant Lleol yn ystod 2026-2027:

1. Llywodraethu
2. Cynllunio a chyflwyno adroddiadau ar lesiant
3. Paratoi Asesiad o Lesiant Lleol

Bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno mewn pum cam, a chynigir sefydlu gweithgor penodol i fwrw ymlaen â phob ffrwd waith ar wahân.

**1. Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethu Uno'r BGC**

Rôl y grŵp gorchwyl a gorffen hwn fydd arwain a datblygu'r trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud â'r uno. Bydd yn paratoi'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y BGC unedig a bydd hefyd yn edrych ar drefniadau gweithredol ac integredig. Bydd gan y grŵp hwn gynrychiolaeth o aelodau Byrddau Gwasanaethau Ceredigion a Sir Gaerfyrddin a bydd yn darparu fforwm cydlynol ar gyfer llunio'r cynigion wrth symud ymlaen.

Mae'n hanfodol bod y grŵp yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o bob sefydliad aelod , er mwyn sicrhau gwneud penderfyniadau effeithiol, cael ymrwymiad sefydliadol a chydlyniad pwrpasol.

**CAM GWEITHREDU: Gofynnir i aelodau'r BGC enwebu cynrychiolydd i eistedd ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethu Uno'r BGC.**

**2. Grŵp Tasg a Gorffen Cynllunio ac Adrodd Llesiant y BGC**
Rôl y grŵp tasg a gorffen hwn fydd paratoi Cynllun Llesiant Lleol ar ddull adrodd trwy ddefnydd adroddiad cyffyrddiad dealladwy dros dro ar gyfer y BGC unedig. Bydd paratoi cynllun dros dro cyn gynted â phosibl yn sicrhau parhad wrth gyflawni gweithgareddau blaenoriaeth, bydd yn darparu cyfeiriad strategol a bydd yn tywys gwaith y Byrddau Cyhoeddus unedig am gyfnod pontio o 18-24 mis, tan gyhoeddi'r Cynllun Llesiant Lleol nesaf yn 2028.

Bydd y grŵp yn canolbwyntio ar fapio elfennau o gyflawni o gynlluniau a ffrydiau gwaith presennol y BGC. Rhagwelir y bydd gorgyffwrdd sylweddol mewn meysydd blaenoriaeth cyffredin, ochr yn ochr â chyfleoedd i alinio gweithgaredd a chanlyniadau heb ddyblygu ymdrech. Mae'r cydlynydd data rhanbarthol, sy'n gweithio ar draws y ddau BGC, eisoes yn cynnal ymarfer mapio cychwynnol a bydd yn cefnogi gwaith y grŵp wrth symud ymlaen.

Bydd y grŵp hwn hefyd yn cydlynu Adroddiadau Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol 2025-26 fydd yn cynrychioli pwynt adrodd a thrawsnewid naturiol o'r ddau Gynllun Llesiant Lleol presennol sydd ar wahân i fabwysiadu Cynllun Llesiant Lleol dros-dro ysgafngyffwrdd ar y cyd.

**CAM GWEITHREDU: Gofynnir i'r BGC gytuno ar y dull o gynhyrchu cynllun Llesiant Lleol dros dro ar y cyd ysgafn ar gyfer cyfnod pontio o 18–24 mis tan gyhoeddi'r Cynllun Llesiant Lleol nesaf yn 2028.**

**Gofynnir i aelodau'r BGC ymrwymo staff i gynorthwyo Grŵp Tasg a Gorffen cynllunio ac adrodd ar Lesiant y BGC.**

**3. Asesiad o Grwpiau Cysylltiedig Llesiant Lleol**
Mae papur manwl ar wahân yn cael ei gyflwyno ar agenda'r cyfarfod heddiw sy'n amlinellu'r cynigion a'r penderfyniadau sydd eu hangen i symud ymlaen â'r gwaith o baratoi'r Asesiad o Lesiant Lleol.

**Amserlen**
Dangosir yr amserlen ar gyfer y Cynllun Uno a pharatoi'r Asesiad o Lesiant Lleol yn yr atodiad.

**CAM GWEITHREDU: Gofynnir i'r BGC gytuno ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer Uno'r BGC.**

| Goblygiadau Ariannol / Financial Implications |
| --- |
| Dim byd yn ychwanegol at yr adnoddau arferol a ddarperir gan bartneriaid i ddatblygu gwaith y BGC. |

| Argymhellion / Recommendations |
| --- |
| **1. Gofynnir i aelodau'r BGC enwebu cynrychiolydd i eistedd ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraethu Uno'r BGC.**<br>**2. Gofynnir i'r BGC gytuno ar y dull o gynhyrchu cynllun Llesiant Lleol dros dro ar ddull adrodd trwy ddefnydd adroddiad cyffyrddiad dealladwy ar y cyd ar** |

| |
|---|
| **gyfer cyfnod pontio o 18–24 mis tan gyhoeddi'r Cynllun Llesiant Lleol nesaf yn 2028.**<br>**3. Gofynnir i aelodau'r BGC ymrwymo staff i gynorthwyo Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynllunio ac Adrodd Llesiant y BGC.**<br>**4. Gofynnir i'r BGC gytuno ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer Uno'r BGC.**<br><br>**Nodyn:**<br>O ystyried yr amserlenni statudol a'r amserlenni heriol, gofynnir i bartneriaid gyflwyno ymatebion ynghylch **enwebiadau ar gyfer y grwpiau erbyn 16 Chwefror 2026 -** ymatebwch i flwch post y partneriaethau os gwelwch yn dda. |
| Atodiadau / Attachments |
| Amserlen Uno'r BGC ac Asesiad o Lesiant Lleol |
| Swyddog Adrodd / Reporting Officer |
| Tim Bray |